**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: SF/FM/3509/12

David Melding AC
Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

28 Ionawr 2013

Annwyl David

Rwy'n ysgrifennu i ymateb i'ch lythyr dyddiedig 3 Rhagfyr am gyfarfod y Pwyllgor ar 14 Tachwedd.

Rwyf wedi nodi'ch crynodeb o'r materion a drafodwyd ac fel y gwyddoch, rwyf eisoes wedi ymateb i'r cwestiynau eraill oedd gennych am y rhaglen Ddeddfwriaethol. Yn Atodiad 1, mae'r atebion i'r cwestiynau ychwanegol y gwnaethoch eu gofyn am entrepreneuriaeth, mentrau cymdeithasol a chymorth i fusnesau.

Yn gywir

**CARWYN JONES**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 060 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 060 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8198
ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk

**Entrepreneuriaeth yng Nghymru**

Mae ein Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid (YES) yn cefnogi ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i hybu twf economaidd a dod o hyd i swyddi i'n pobl ifanc. Nod YES yw gwneud y canlynol:

- sefydlu diwylliant o entrepreneuriaeth yng Nghymru;
- cynyddu nifer y cwmnïau bach sy'n cael eu sefydlu yng Nghymru a chreu sector preifat llewyrchus;
- annog mwy o bobl ifanc i gael y sgiliau sydd eu hangen arnynt i greu twf economaidd yng Nghymru.

Rydym yn credu bod hybu entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc yn bwysig iawn. Un ffordd rydym yn gwneud hyn yw trwy'n prosiect Modelau Rôl Dynamo. Mae 365 o entrepreneuriaid, gan gynnwys entrepreneuriaid cymdeithasol, yn rhan o brosiect Dynamo sy'n ysgogi ac yn ysbrydoli pobl ifanc. Bellach, mae Ymddiriedolaeth y Tywysog wedi ymuno â'r prosiect ac mae'n cydweithio â nifer o gyrff fel timau troseddwyr ifanc, grwpiau cymunedol a phartneriaethau ieuenctid.

Eleni, byddwn yn lansio cystadleuaeth bwysig i ysgolion cynradd ledled Cymru fydd yn annog ysgolion i roi profiad o entrepreneuriaeth i'w disgyblion a bydd yn tynnu sylw at yr help sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i bobl ifanc.

**Menter Gymdeithasol**

Mae'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth wedi sefydlu Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru (y Comisiwn), dan Gadeiryddiaeth yr Athro Andrew Davies, Cynghorydd Strategol Prifysgol Abertawe. Gwaith y Comisiwn fydd gwneud argymhellion ynghylch ehangu a datblygu'r economi gydweithredol a chydfuddiannol yng Nghymru er mwyn creu swyddi a chyfoeth i gefnogi nodau ac uchelgais Llywodraeth Cymru. Byddaf yn gofyn i'r Gweinidog ystyried gofyn i'r Comisiwn roi'r cysyniad o fentrau cymdeithasol ar waith.

Fel darparwyr moesegol gwasanaethau ariannol sylfaenol, mae undebau credyd yn chwarae rôl hanfodol yn helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hymrwymiadau i fynd i'r afael â thlodi ac allgáu ariannol lle mae'n bodoli yn ein cymunedau.

Ers dechrau'r Prosiect Mynediad at Wasanaethau Ariannol trwy Undebau Credyd yn 2010, ar gyfartaledd, mae nifer yr oedolion sy'n aelodau o Undebau Credyd yng Nghymru wedi cynyddu 26% ac mae nifer y pobl ifanc sydd wedi ymaelodi â'r Undebau wedi cynyddu rywbeth yn debyg hefyd.

Ym mis Rhagfyr 2010, cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu ar gyfer yr Undebau Credyd. Yn y cynllun hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i helpu Undebau Credyd i dyfu fel eu bod, erbyn 2020, yn cyrraedd 6% o boblogaeth Cymru. Fel mae pethau'n mynd rhagddynt, rydym ar y ffordd i gyrraedd y targed hwnnw.

Fel mentrau cymdeithasol a chwmnïau ariannol a chydweithredol, mae unrhyw arian a fuddsoddir mewn Undeb Credyd yn cael ei gadw gan y gymuned er budd y gymuned. Yna, mae hyn yn galluogi'r Undebau Credyd i gynnig benthyciadau i unigolion ac i fusnesau bach ar raddfa gydweithredol a di-elw. Yn ystod y ddau fis nesaf, byddwn yn cynnal gwerthusiad interim o'r prosiect ac os byddwch eisiau rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu.

**Cymorth i fusnesau newydd**

Mae ein rhaglenni cymorth arloesi i fusnesau a rhaglenni Ymchwil a Datblygu SMART eisoes yn rhoi llawer o help i fusnesau sy'n dymuno creu cysylltiadau â'r maes academaidd ac mae'r cymorth ar gael ar gyfer mwy na dim ond ymchwil a datblygu "caled" STEM. Mae'n rhaid i ni gydnabod a chefnogi syniadau arloesol yn y sector gwyddorau cymdeithasol, y sector creadigol, y sector gwasanaethu a'r sector diwylliant a thwristiaeth. Er enghraifft, roedd y Fenter Ymchwil Busnesau Bach gyntaf yng Nghymru, a ariannwyd ar y cyd gan y Bwrdd Strategaeth Technoleg, wedi'i seilio ar gystadleuaeth â thwristiaeth ac fe'i dyluniwyd i gefnogi dulliau arloesol o roi cyhoeddusrwydd i Lwybr Arfordir Cymru.

Bydd y Gweinidog dros Fusnes, Mentrau, Technoleg a Gwyddoniaeth yn gwneud cyhoeddiad ar Strategaeth Arloesi newydd Cymru yn y man. Bydd yn annog busnesau i ddiffinio arloesi yn y modd ehangaf posibl ac i gynnal mwy o gystadlaethau ac i gyflawni modelau arloesi sy'n agored. Yn ddiweddar, cyhoeddwyd y Cais am Dystiolaeth ar gyfer y strategaeth ac fe nodwyd pum maes pwysig sydd angen i ni eu rhoi ar waith:

Gwella cydweithio;

Sefydlu diwylliant lle mae arloesi yn bwysig;

Sicrhau bod dulliau ariannol hyblyg ac ymatebol ar gael i annog arloesedd;

Creu màs critigol a rhoi blaenoriaeth iddo;

Annog arloesi yn y sector cyhoeddus ac o fewn llywodraeth.